Mae Budd-daliadau yn newid

# Taflen Wybodaeth Diwygio Lles

## Cronfa Cymorth Dewisol (sy'n disodli'r Gronfa Gymdeithasol)

O fis Ebrill 2013, bydd y Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru yn disodli 'benthyciadau argyfwng' a 'grantiau gofal cymunedol' a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae benthyciadau cyllideb yn cael eu gweinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o hyd a gallwch ei ffonio ar **0845 6036967** i wneud cais.

Gallwch wneud cais am help gan y Gronfa Cymorth Dewisol os na allwch dalu am yr hyn sydd ei angen arnoch. Cewch help drwy arian neu dalebau am nwyddau neu wasanaethau.

## Pa fath o help fydd yn cael ei gynnig?

Mae dau fath o gymorth ar gael:-

- Taliadau Cymorth Argyfwng
- Taliadau Cymorth Unigol

## Beth yw Taliadau Cymorth Argyfwng?

Mae'r rhain yn daliadau i'ch helpu ar ôl argyfwng neu drychineb. Er enghraifft, os oes tân neu lifogydd yn eich cartref.

**Ydw i'n gymwys i gael Taliadau Cymorth Argyfwng?**

I gael help, rhaid eich bod:

- O leiaf 16 oed.
- Heb arian i ddiwallu eich anghenion chi neu'ch teulu ar ôl argyfwng neu drychineb.
- Bod perygl difrifol i'ch iechyd a'ch diogelwch chi neu'ch teulu.
- Heb unrhyw ffordd arall o gael y cymorth sydd ei angen arnoch.

**Beth alla i wneud cais amdano dan Daliad Cymorth Argyfwng?**

- Arian neu nwyddau i'ch digolledu am eitemau a gafodd eu dwyn, difrodi neu ddinistrio.
- Treuliau i'ch helpu i brynu eitemau hanfodol.

## Beth yw Taliad Cymorth Unigol?

Mae Taliadau Cymorth Unigol yn helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol. Bydd lefel y cymorth a roddir yn dibynnu ar eich anghenion a'ch amgylchiadau cyfredol gan gynnwys p'un a oes gennych gynilion neu fynediad i arian arall. Gallwch wneud cais am help i'ch hun, eich teulu, neu rywun rydych yn gofalu amdano neu'n bwriadu gofalu amdano.

Mae budd-daliadau'n newid

Ydych <u>CHI</u>'n barod?

CARDIFF
CAERDYDD

www.caerdydd.gov.uk/diwygiolles

029 2087 2088

**Ydw i'n gymwys i gael Taliad Cymorth Unigol?**
I fod yn gymwys, rhaid eich bod chi neu'r person rydych yn gofalu amdano fod yn cael un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credydau Pensiwn

Rhaid i chi neu'r person rydych yn gofalu amdano hefyd fod yn

- Gadael sefydliad fel ysbyty, cartref gofal, hostel neu garchar o fewn y chwe wythnos nesaf ar ôl byw yno am o leiaf dri mis.
- Bwriadu gofalu am rywun sy'n gadael llety o'r fath
- Angen help fel rhan o ailgartrefu a gynllunnir, ar ôl cyfnod yn fod yn ddigartref neu'n gadael llety â chymorth.
- Angen help i leddfu ar bwysau eithriadol
- Angen help gyda thaliad hanfodol neu deithio untro

Ni allwch fel arfer wneud cais am fwy nag un Taliad Cymorth Unigol o fewn 4 wythnos onid yw eich amgylchiadau wedi newid.

## Sut ydw i'n gwneud cais am help?

- Ffoniwch rif rhadffôn 0800 859 5924 (am ddim o linell tir) neu 033 0101 5000 (codir ar gyfradd 0845 o ffôn symudol). Llinellau ar Agor: Llun - Gwe 9am - 5pm
- Gwnewch gais ar-lein yn www.moneymadeclearwales.org a chwilio am y Gronfa Cymorth Dewisol
- Cysylltwch â ni i gael ffurflen neu lawrlwythwch un o www.moneymadeclearwales.org

## Pa mor hir bydd fy nghais yn ei gymryd?

Bydd cais am Daliadau Cymorth Unigol yn cymryd tua 3 diwrnod gwaith i'w brosesu. Cewch lythyr yn dweud am y penderfyniad.

Bydd cais am Daliad Cymorth Argyfwng yn cymryd tua 24 awr i'w brosesu (ond nid ar y penwythnos). Cewch wybod am y penderfyniad drwy neges destun, e-bost neu lythyr.

Mae'n cymryd tua 30-40 munud i wneud cais dros y ffôn.

## Cymorth Arall sydd Ar gael

Mae Banc Bwyd Caerdydd yn rhoi cymorth bwyd brys i unigolion a theuluoedd mewn sefyllfaoedd argyfyngus byrdymor. Rhagor o wybodaeth yn www.cardifffoodbank.org.uk

Mae Fare Share Cymru yn helpu pobl sy'n cael trafferth bwydo eu hunain a'u teulu. Rhagor o wybodaeth yn www.fareshare.org.uk

Mae cydweithfeydd bwyd yn gwerthu ffrwythau, llysiau a bagiau salad fforddiadwy bob wythnos. Gwirfoddolwyr lleol sy'n gyfrifol am y cynllun. Bagiau yn £2.50-£3 yr un. Cysylltwch â Hannah James yn Hannah.James@rru.org.uk neu ffoniwch 07717205438 neu 02920 232943.

**Mae help ar gael mewn sawl iaith yn yr Hybiau.**

**Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau cyffredinol. Nid yw'n ddatganiad cyflawn nac awdurdodol o'r gyfraith.**